Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 330 – 18 Chwefror 2010
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2010.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 329

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 329.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd JWJ ei adroddiad.

Nododd ei fod wedi ysgrifennu at deuluoedd Robin Jones ac Angharad Jones i gydymdeimlo â hwy yn eu profedigaethau.

Cyfeiriodd at y Noson Gwylwyr a gynhaliwyd ym Machynlleth gyda dros 70 o bobl yn bresennol. Soniodd am y Noson Gwylwyr nesaf yn Abertyleri ar Fawrth 18.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd IJ ei hadroddiad.

Manylder Uwch
Cyflwynodd IJ ddiweddariad yn ymwneud â lansiad y gwasanaeth manylder uwch.

Amrywiaeth
Cyflwynwyd papur ar Gydraddoldeb i bobl anabl.
Yn dilyn y drafodaeth cymeradwywyd y ddogfen.

'Product Placement'
Cyfeiriodd IJ at ganllawiau product placement newydd.

Pwyllgor yr Ymgyrch Ddarlledu
Esboniodd IJ ei bod wedi cyfarfod gyda Meredydd Evans a Menna Machreth yn ddiweddar. Roedd y Cadeirydd wedi llythyru gada Meredydd Evans yn gwahodd cynrychiolwyr Pwyllgor yr Ymgyrch Ddarlledu i S4C i drafod gyda'r Awdurdod.

4. Materion Eraill
Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg
- Adroddiad o'r Pwyllgor Cynnwys
- Adroddiad Sefyllfa Ariannol Diwedd y Flwyddyn/ Cynllun 5 Mlynedd
- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Ymchwil